# Sut mae darllen yn esblygu yn y blynyddoedd cynnar: mewnwelediadau hydredol gan deuluoedd

*Mae rhai o'r dolenni yn arwain at dudalennau/dogfennau Saesneg yn unig ar hyn o bryd.*

## Cyflwyniad

**Mae blynyddoedd cynharaf bywyd plentyn ymhlith rhai o'r pwysicaf wrth lunio ei ddyfodol. Mae'r profiadau yn ystod y cyfnod hwn o newid cyflym yn cael effaith barhaus. Yn wir, mae ymchwil yn dangos bod 90% o dwf ymennydd plentyn yn digwydd cyn iddo droi'n 5 oed.[1] Mae tystiolaeth gref bod amlygiad cynnar i lyfrau a straeon yn arwain at fanteision gydol oes. Dysgwch fwy am fanteision darllen.**

Ar adeg pan fo'r bylchau mewn deilliannau yn tyfu rhwng plant sy'n cael eu magu mewn teuluoedd ag incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog, mae darllen yn ffordd o wneud gwahaniaeth cadarnhaol uniongyrchol a hirdymor. Ond mae llawer o deuluoedd yn wynebu rhwystrau sy'n gwneud darllen yn rheolaidd yn heriol. Dysgwch fwy yn ein papurau briffio eraill ar ymchwil blynyddoedd cynnar.

Yn BookTrust, ein cenhadaeth yw cefnogi plant a theuluoedd – yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel a'r rhai sy'n cael gofal maeth, gofal gan berthynas ac sydd wedi'u mabwysiadu – i sicrhau bod darllen yn rhan bleserus o fywyd bob dydd. Rydym yn cydweithio â miloedd o weithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gyrraedd miliynau o blant yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol.

> "Rydych chi wedi helpu i chwarae rhan fawr ym mywyd fy mab, oherwydd pe na bawn i wedi dangos y llyfrau [Dechrau Da] yna iddo, pe na bawn i wedi darllen y llyfrau yna iddo, pe na bawn i wedi dangos y llyfr du a gwyn iddo, ni fyddai wedi cael y profiad yna mor ifanc ac ni fyddai wedi cyrraedd lle mae e' nawr."
>
> **Rhiant, Lloegr**

## Ynglŷn â'r papur briffio hwn

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl o rôl darllen yn y blynyddoedd cynnar drwy leisiau teuluoedd incwm isel. Mae'n ystyried sut mae arferion darllen yn esblygu, gan groestorri â dynameg teuluol a dynameg datblygiadol ehangach. Mae hefyd yn ystyried profiadau teuluoedd o gael cefnogaeth i ddarllen ar wahanol gamau.

Mae ein canfyddiadau'n tanlinellu pwysigrwydd cefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai a all elwa fwyaf, drwy'r cyfnod hwn o newid cyflym. Yn BookTrust, mae ein rhaglenni Blynyddoedd Cynnar yn adlewyrchu dealltwriaeth bod diddordeb plentyn mewn llyfrau a straeon yn esblygu wrth iddo dyfu. Rydym yn darparu llyfrau ac adnoddau sy'n briodol i oedran, sydd wedi'u dewis yn ofalus ac sy'n diwallu eu hanghenion sy'n newid.



## Methodoleg ymchwil

Cynhaliodd BookTrust astudiaeth hydredol ansoddol gyda 22 o deuluoedd o aelwydydd incwm isel[2] ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dewiswyd y teuluoedd hyn o blith y rhai a ymatebodd i'n harolwg Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Cyn-ysgol/Meithrin. Gwnaethom siarad â theuluoedd ddwywaith yn ystod cyfnod o chwe mis – ym mis Mawrth 2024 a mis Tachwedd 2024 – drwy gyfweliadau ar-lein awr i ddwy awr o hyd.[3]

Rhoddodd ein dull hydredol ddealltwriaeth ddyfnach i ni o brofiadau ac arferion teuluoedd a'r heriau sy'n eu hwynebu. Yn hytrach na nodi adeg benodol, roedd y dull hwn yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i'r ffordd mae arferion darllen, anghenion cymorth a phryderon rhieni yn esblygu dros amser.

Aeth ein hymchwilwyr ati i ymgysylltu â theuluoedd o wahanol gefndiroedd, sy'n wynebu gwahanol amgylchiadau mewn gwahanol leoliadau, i roi darlun cyfoethog o'r ffordd mae darllen yn ffitio i mewn i fywyd bob dydd. Cafodd yr ymchwil ei dylunio yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu'n flaenorol o'n harolygon lefel cenedlaethol a rhaglen, ymchwil ansoddol, a'n Theori Newid. Ystyriwyd yr hyn sy'n cefnogi darllen o fewn bywyd teuluol drwy lens cryfderau. Roedd hyn yn iteraidd wrth i ni feithrin ein dealltwriaeth gyda theuluoedd dros ddau gam y gwaith maes.

## Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym?

**Taith darllen a rhannu straeon yn ystod y blynyddoedd cynnar**


Mae'r ymchwil hon yn rhoi dealltwriaeth fanwl o'r ffordd mae ymddygiadau darllen ac agweddau tuag at ddarllen yn esblygu wrth i blant dyfu. Canfuom, er bod darllen yn chwarae sawl rôl sy'n gorgyffwrdd ar bob cam o blentyndod cynnar – rolau fel bondio, dysgu a chwarae – fod agweddau gwahanol ar ddarllen yn dod yn bwysicach ar gamau datblygiadol gwahanol. Yn seiliedig ar y teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw, mae'r diagram isod yn dangos y ffordd amlycaf y mae darllen yn chwarae rhan ym mywydau plant wrth iddynt dyfu.

Er bod y themâu hyn yn cynrychioli tueddiadau sydd wedi'u harsylwi, mae pob plentyn yn datblygu'n wahanol ac mae amgylchiadau a chyd-destunau pob teulu yn unigryw, sy'n golygu na fydd pob taith ddarllen yn edrych yr un fath a bydd anghenion teuluoedd yn wahanol.

Mae pob rhan o'r papur briffio hwn yn ystyried cam gwahanol, gan amlinellu'r hyn rydym wedi'i glywed gan deuluoedd am eu cyd-destun, darllen a rhannu straeon a'u profiadau o gael cefnogaeth i ddarllen. Mae pob enw wedi'i newid er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion.

Hoffem ddiolch i'r holl deuluoedd a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr ymchwil hon.

## Esblygiad darllen yn ystod y blynyddoedd cynnar




Mae rôl darllen a rhannu straeon yn esblygu...

- **o** gefnogi'r bond rhwng rhieni a babanod, a darganfod drwy'r synhwyrau
- **i** ddod yn gyfrwng i archwilio a chwarae
- **i** ddatblygu'n brofiad mwy cyfoethog a rhyngweithiol sy'n cysylltu plant â'u dychymyg a'r byd o'u hamgylch
- **i** ddod yn fwy strwythuredig wrth bontio i'r ysgol, gan ddod o hyd i gydbwysedd rhwng llyfrau ysgol sy'n canolbwyntio ar ddysgu a darllen ar y cyd gartref er mwyn ymlacio.

# **0–1 oed:** Yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd, mae llyfrau a darllen ar y cyd yn hyrwyddo bondio a darganfod drwy'r synhwyrau



**Cyd-destun y teulu:** Mae rhieni a gofalwyr yn mynd i'r afael ag arferion newydd, gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion uniongyrchol eu plentyn. Wrth iddynt ddod i adnabod eu babi, maent yn archwilio ffyrdd o fondio ac ennyn eu diddordeb. Mae babanod yn dechrau profi'r byd o'u hamgylch drwy ysgogiadau a chwarae synhwyraidd, ac mae angen mwy o ymgysylltiad arnynt wrth i'w golwg a'u symudedd ddatblygu.

**Darllen a rhannu straeon ar y cam hwn:** Mae darllen ar y cyd yn helpu rhieni a gofalwyr i fondio gyda'u plentyn drwy agosrwydd corfforol ac ymgysylltiad rhyngweithiol, chwareus. Mae llyfrau yn wrthrychau synhwyraidd – yn cynnig gweadau, synau ac elfennau gweledol – sy'n helpu i ysgogi datblygiad gwybyddol. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysgogi gan ymateb eu babi, fel parablu neu ddangos diddordeb yn ystod yr amser maent yn ei dreulio ar eu bola.

**Profiadau teuluoedd o gael cefnogaeth i ddarllen:** Mae rhieni a gofalwyr yn dechrau rhannu straeon a llyfrau ar wahanol adegau. Un ffactor pwysig yw gwybodaeth am fanteision darllen yn gynnar. Efallai y deuir i wybod mwy am fanteision hyn drwy wybodaeth a ddarperir, er enghraifft yn ystod apwyntiadau ymwelwyr iechyd. Gall profiadau rhieni a gofalwyr eu hunain o ddarllen, ynghyd â dylanwad cyfoedion, chwarae rôl hefyd – gallant naill ai atgyfnerthu darllen fel rhywbeth sy'n rhan arferol o fywyd y teulu neu wneud iddynt deimlo nad yw'n 'rhywbeth mae ganddynt ddiddordeb ynddo'. Ar y cam hwn, mae amharodrwydd hefyd i fuddsoddi mewn llyfrau babanod oherwydd ystyrir mai dim ond am gyfnod byr y byddant yn cael eu defnyddio neu oherwydd mynediad cyfyngedig i lyfrau.

Mae **Qasim** yn bedwar mis oed ac mae'n byw gyda'i fam, ei dad a'i chwaer pum mlwydd oed yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Dechreuodd ei fam rannu llyfrau gyda ef pan oedd tua phedair wythnos oed, gan sicrhau ei fod yn rhan o'i drefn ddyddiol – yn enwedig adeg amser gwely. Mae'n cynnwys ymgysylltiad synhwyraidd yn rhan o amser stori, rhywbeth a ddechreuodd yn gynharach gydag ef o gymharu â'i chwaer. Mae ei chwaer yn mwynhau troi'r tudalennau iddo, ac mae eu mam yn gwerthfawrogi'r profiad bondio mae darllen yn ei roi i bob un ohonynt.

**Dechrau Da Babi** yw rhaglen gyffredinol BookTrust i fabanod 0-1 oed, a ddarperir drwy weithwyr iechyd proffesiynol, llyfrgelloedd a gweithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol eraill. Mae'n darparu llyfr am ddim, taflen wybodaeth a phyped bys i dros 90% o fabanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad at lyfrau o'r adeg y bydd babi yn cael ei eni a'u hannog i ddechrau darllen gyda'u plant mor gynnar â phosibl.



# **1–2 oed:** Wrth i fabanod dyfu'n blant bach, mae llyfrau'n dod yn gyfrwng i archwilio a chwarae



**Cyd-destun y teulu:** Wrth i blant bach dyfu, mae eu chwilfrydedd a'u gallu i gyffwrdd a gafael mewn pethau ac archwilio gwahanol wrthrychau yn cynyddu. Mae hoffterau a diddordebau penodol yn dechrau dod i'r amlwg. Mae rhieni a gofalwyr yn ystyried bod angen mwy o ysgogiad ar blant. Er mwyn diwallu'r angen hwn, mae rhieni a gofalwyr yn chwilio am weithgareddau y tu allan i'r cartref, fel ymweld â chanolfannau i blant, llyfrgelloedd, grwpiau chwarae, Canolfannau i Deuluoedd neu fannau awyr agored. Mae rhai plant hefyd yn dechrau mynd i leoliadau gofal plant fel meithrinfeydd. Ar y cam hwn, mae rhieni a gofalwyr yn dod yn fwy ymwybodol o ddatblygiad iaith a lleferydd eu plant, gan fesur cynnydd yn aml yn ôl nifer y geiriau maent yn eu gwybod

**Darllen a rhannu straeon ar y cam hwn:** Mae llyfrau'n newid o fod yn gyfrwng ar gyfer bondio'n bennaf i fod yn ffynhonnell archwilio a chwarae. Gall y ffaith mai dim ond am gyfnod byr y gallant ganolbwyntio wneud darllen ar y cyd yn heriol, ond mae llyfrau â nodweddion rhyngweithiol sy'n denu'r sylw fel gweadau a fflapiau yn helpu i gadw sylw'r plentyn. Wrth i blant ymgymryd â rôl fwy gweithredol wrth ddewis yr hyn maent yn chwarae gydag ef, efallai y byddant yn dechrau ffafrio llyfrau neu bynciau penodol. Gyda ffocws cynyddol ar ddatblygiad iaith a lleferydd, gall rhieni a gofalwyr sy'n pryderu am oedi o ran lleferydd roi mwy o bwyslais ar lyfrau a darllen ar y cyd.

**Profiadau teuluoedd o gael cefnogaeth i ddarllen:** Wrth ddechrau ar gam darllen newydd, mae angen i rieni a gofalwyr ddod o hyd i ffyrdd newydd o ennyn diddordeb eu plentyn mewn darllen a rhannu straeon. Mae cefnogaeth i ddod o hyd i lyfrau addas, fel opsiynau fydd yn para ac yn gallu gwrthsefyll llawer o ddefnydd neu lyfrau rhyngweithiol sy'n cadw sylw, yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr. Mae teuluoedd hefyd yn mynd ar drywydd ystod ehangach o lyfrau sy'n cyd-fynd â'r hyn mae eu plentyn yn ennyn diddordeb ynddo. I rai, yn enwedig y rhai sy'n teimlo'n llai hyderus yn darllen gyda'u plentyn, gall awgrymiadau am ddarllen rhyngweithiol ar y cyd neu fodelu gwahanol ffyrdd o fwynhau darllen fod yn ddefnyddiol.

Mae **Lily** bron yn ddwy flwydd oed ac mae'n byw gyda'i mam a'i ddau sibling yn Ne-ddwyrain Lloegr. Mae straeon amser gwely yn arfer y mae'r teulu yn hoff iawn ohono. Mae'n cynnig cyfle i ymlacio a dianc i "fyd straeon", yn enwedig yn ystod cyfnodau llawn straen. Yn ystod yr wythnos, mae Lily yn mynd i grŵp chwarae lleol yn y Ganolfan i Deuluoedd, yn ymweld â'i mam-gu ac yn chwarae gyda'i ffrindiau. Weithiau, gall daflu llyfrau ar y llawr os bydd yn colli diddordeb ynddynt. Yn ddiweddar, mae wedi datblygu diddordeb brwd mewn anifeiliaid, a *Maggie the Monkey* yw ei hoff lyfr ar hyn o bryd.

Mae **Amser Stori BookTrust yn** rhaglen seiliedig ar lyfrgelloedd i blant dan 5 oed sydd wedi'i datblygu ar y cyd ag awdurdodau lleol, llyfrgelloedd a theuluoedd. Mae'n cyflwyno teuluoedd i lyfrgelloedd ac yn eu hannog i ddychwelyd, gan gynnig ffordd hawdd a difyr iddynt rannu a mwynhau straeon gyda'i gilydd.

**Dechrau Da i Blant Bach** yw rhaglen BookTrust i blant 1–2 oed sy'n darparu adnoddau priodol i oedran sy'n annog darllen rhyngweithiol, chwareus. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau lyfr â nodweddion diddorol, syniadau am weithgareddau a phropiau ar gyfer gemau sy'n seiliedig ar thema'r llyfrau. Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi rhieni a gofalwyr yn ystod y cyfnod hwn pan fo angen profiadau mwy amrywiol ac ysgogol ar blant.

## **2–4 oed:** Wrth i blant aeddfedu, mae darllen yn dod yn brofiad mwy cyfoethog a rhyngweithiol



**Cyd-destun y teulu:** Gall teuluoedd newid i oriau gofal plant gwahanol a gall hyn, yn aml, gyflwyno arferion newydd i'w bywydau bob dydd. Mae yna ymagweddau gwahanol tuag at amser sgrin yn rhan o arferion, ond yr ymagwedd gyffredinol yw cyfyngu arno. Erbyn bod plant yn cyrraedd tair neu bedair blwydd oed, mae rhieni a gofalwyr yn dechrau meddwl am baratoi i fynd i'r ysgol.

**Darllen a rhannu straeon ar y cam hwn:** Mae llyfrau'n esblygu o fod yn wrthrychau ar gyfer bondio a chwarae yn bennaf i gynnig profiadau cyfoethog y gellir ymgolli ynddynt, wrth i deuluoedd gysylltu straeon fwyfwy â'r byd o'u hamgylch a'u dychymyg. Caiff twf mewn annibyniaeth a chreadigrwydd eu hadlewyrchu yn yr hiwmor, y straeon naratif a'r chwarae dychmygol y mae plant yn eu ffafrio – y mae rhieni a gofalwyr yn aml yn cymryd rhan ynddo.

Gall darllen fod yn ffynhonnell balchder ac, yn ei dro, gall fod yn gymhelliant i rieni a gofalwyr, yn enwedig pan fyddant yn gweld arwyddion o gynnydd, fel plant yn cofio rhannau o lyfr fel pe baent yn ei 'ddarllen' eu hunain.

Mae blaenoriaethau sy'n cystadlu, fel y feithrinfa a'r hyn mae plentyn yn dangos mwyfwy o ddiddordeb ynddo, yn peri heriau i gynnal amser darllen. Mae llyfrau nad ydynt yn rhai ffisegol a chyfryngau eraill ar gyfer adrodd straeon – fel teledu, tabledi neu chwaraewyr sain – yn cystadlu mwyfwy am sylw hefyd. Yn aml, mae rhieni a gofalwyr yn barnu bod darllen yn ddewis amgen mwy iach a diddorol i ddefnyddio sgriniau mewn ffordd oddefol.

Mae rhai rhieni a gofalwyr yn cynnwys elfennau dysgu, fel lliwiau, siapiau a rhifau, wrth ddarllen ar y cyd, yn enwedig wrth iddynt ddechrau meddwl am bontio i'r ysgol. Mae eraill yn ystyried bod hwn yn amser i'w fwynhau – cyfle i fondio a chysylltu drwy amser stori, yn enwedig fel rhan o arferion amser gwely, cyn dechrau bywyd prysur yn yr ysgol.

**Profiadau teuluoedd o gael cefnogaeth i ddarllen:** Wrth i rieni a gofalwyr ddechrau meddwl am yr ysgol, mae rhai yn ceisio cymorth a chyngor ar ddarllen neu'n ystyried lle y gallant ddod o hyd i wybodaeth ddibynadwy. Yn gyffredinol, mae rhieni a gofalwyr yn fwy agored i gael cefnogaeth i ddarllen o'r tu allan, fel arweiniad gan staff meithrinfeydd a gweithwyr proffesiynol eraill yr ymddiriedir ynddynt – yn enwedig os oes gan eu plentyn anghenion cymorth ychwanegol.

Mae **Aoife** yn dair blwydd oed ac mae'n byw yng Ngogledd Iwerddon gyda'i mam, ei thad a'i chwaer pum mlwydd oed. Yn ddiweddar, fe ddechreuodd hi fynd i'r feithrinfa'n llawn amser, a dechreuodd ei chwaer fynd i'r ysgol. Mae gan y teulu arferion darllen sefydledig – maent yn dewis llyfr bob nos i ddarllen gyda'i gilydd yn y 'gornel glyd'. Mae'r gofod hwn yn ffynhonnell o gysur i Aoife a'i chwaer, lle maent yn mwynhau troi'r tudalennau ac ailadrodd y straeon maent yn eu cofio. Bydd Aoife yn dechrau yn yr ysgol gynradd flwyddyn nesaf, ac mae ei mam yn falch ei bod hi'n dangos diddordeb mewn darllen a dysgu yn barod.

**Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar** yw rhaglen BookTrust i blant 2–3 oed yng Nghymru, a ddarperir mewn partneriaeth ag ymwelwyr iechyd. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'n darparu pecynnau Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar dwyieithog er mwyn annog arferion darllen ar y cyd ac ennyn diddordeb mewn straeon yn gynnar.

**Dechrau Da Meithrin** yw rhaglen BookTrust i blant 3–4 oed ac mae'n dilyn ymlaen o Dechrau Da i Blant Bach. Mae'r rhaglen yn darparu dau lyfr a gweithgareddau sy'n benodol i oedran sy'n helpu i ddod â straeon yn fyw. Mae'n cefnogi dysgu cynnar drwy annog plant i ryngweithio â straeon mewn ffyrdd newydd, gan danio eu dychymyg a'u helpu i gysylltu llyfrau â'u profiadau eu hunain a'r byd ehangach.

## **4–7 oed:** Mae darllen yn esblygu wrth bontio i'r ysgol, gan arwain at arferion mwy strwythuredig a 'jyglo' newydd â darllen annibynnol



**Cyd-destun y teulu:** Mae pontio i'r ysgol yn garreg filltir allweddol ar y cam hwn. I'r rhan fwyaf o deuluoedd, mae'r newid hwn yn arwain at ddynameg ac arferion mwy strwythuredig. Ymhlith yr heriau allweddol a wynebir mae addasiadau cymdeithasol, fel gwneud ffrindiau, a gorbryder gwahanu – i'r plentyn a'r rhiant neu ofalwr. Wrth i blant ymgyfarwyddo â'r blynyddoedd cynnar yn yr ysgol, mae rhieni a gofalwyr yn mynd i'r afael â disgwyliadau sy'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad, gan boeni'n aml y bydd eu plentyn yn disgyn ar ei hôl hi.

**Darllen a rhannu straeon ar y cam hwn:** Wrth i blant bontio i'r ysgol, mae darllen yn dod yn fwy strwythuredig a rhoddir mwy o bwyslais ar ffoneg, darllen annibynnol a sgiliau academaidd. Gall rhieni a gofalwyr ei chael hi'n anodd dod o hyd i gydbwysedd rhwng llyfrau a roddir gan yr ysgol – sy'n canolbwyntio ar ddysgu sut i ddarllen – a darllen ar y cyd er mwynhad, yn enwedig pan fo plant wedi blino ar ôl dod adref.

Gall hyn arwain at lai o ddarllen ar y cyd er mwynhad wrth i lyfrau ysgol a sgiliau ddarllen gymryd blaenoriaeth. Fodd bynnag, mae rhai rhieni a gofalwyr yn ystyried bod darllen er mwyn ymlacio ar ôl diwrnod hir yn yr ysgol cyn bwysiced os nad yn fwy pwysig.

**Profiadau teuluoedd o gael cefnogaeth i ddarllen:** Ar y cam hwn, yr ysgol yw'r brif ffynhonnell o gefnogaeth i ddarllen. Fel arfer, mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys deunydd darllen i fynd adref, pecynnau ffoneg ac adnoddau digidol, ynghyd ag anogaeth i ddarllen ar y cyd gartref. Mae ffocws cryf ar ddatblygu sgiliau darllen annibynnol, yn enwedig drwy ffoneg. Gall rhai plant gael cymorth ychwanegol os oes ganddynt anghenion dysgu penodol.

Mae **Stella** yn bum mlwydd oed ac yn byw yn Llundain gyda'i mam, a'i siblingiaid hŷn sy'n 11, 13 a 14 oed. Ers dechrau yn y dosbarth derbyn, mae'r pontio i'r ysgol wedi bod yn newid mawr. Mae ei mam o'r farn bod yr athrawon wedi bod yn gefnogol o ran helpu Stella i setlo yn yr ysgol ac wrth fynd i'r afael â'r ffaith y gall fod ganddi awtistiaeth. Mae Stella yn dysgu ffoneg yn yr ysgol ac yn dod â llyfr darllen newydd adref gyda hi bob wythnos. Mae'n darllen y llyfr gyda'i mam y rhan fwyaf o nosweithiau. Yn ddiweddar, mae hi wedi dangos mwy o ddiddordeb mewn llyfrau straeon.

Mae **Pori Drwy Stori** yn rhaglen Gymraeg i blant meithrin a derbyn (3–5 oed), a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Nod y rhaglen yw ysbrydoli cariad at lyfrau, straeon a rhigymau a chefnogi datblygiad plant o ran siarad, gwrando a rhifedd. Drwy ddarparu adnoddau diddorol, mae'r rhaglen yn helpu teuluoedd i gefnogi dysgu a hyder eu plant wrth iddynt bontio i'r ysgol.

Mae **gwefan BookTrust** yn darparu amrywiaeth o adnoddau i helpu plant o oedran ysgol i ddarllen, gan gynnwys y Canllaw Llyfrau Gwych blynyddol, argymhellion ar gyfer llyfrau, ffyrdd o ennyn eu diddordeb gartref ac yn yr ysgol, ac adnoddau i'w helpu i ddarllen yn uchel. Mae'r adnoddau hyn yn ategu'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol ac yn annog rhieni a gofalwyr i barhau i ennyn diddordeb mewn darllen er mwynhad.

## Cefnogaeth i deuluoedd gan BookTrust yn y blynyddoedd cynnar

Er nad ydym wedi nodi profiad pob teulu, mae'r ymchwil hon wedi tynnu sylw at y ffordd mae darllen a rhannu llyfrau a straeon yn esblygu ar bob cam o'r blynyddoedd cynnar, wedi'u llywio gan amrywiaeth o ffactorau. Er mwyn cefnogi teuluoedd ar y daith hon, mae angen ymgysylltu â nhw ar wahanol adegau yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn, mewn ffyrdd sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol ar yr adeg honno.

Mae ein rhaglenni Dechrau Da yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar gan ein bod yn gwybod pa mor bwysig yw dechrau darllen a rhannu straeon yn gynnar. Diolch i rwydwaith arbennig iawn o bartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, llyfrgelloedd a mwy ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym yn gallu cyrraedd teuluoedd yn eu cymunedau lleol eu hunain. Mae ein rhaglenni yn rhychwantu gwahanol gamau er mwyn diwallu anghenion ar yr adegau penodol hyn. Dysgwch fwy am ein rhaglenni ar ein gwefan.

## Ynglŷn â BookTrust

Fel yr elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU, rydym eisiau i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd ac o'i wirfodd. Rydym yn cyrraedd miliynau o blant a theuluoedd bob blwyddyn, gan eu hysbrydoli gyda llyfrau ac adnoddau i ddechrau ar eu taith ddarllen. Rydym yn darparu amrywiaeth eang o gefnogaeth, adnoddau a llyfrau sydd wedi'u dewis a'u dylunio'n ofalus i helpu teuluoedd i ddechrau rhannu straeon ac i barhau i ddarllen drwy gydol plentyndod. Rydym yn cynnig cymorth penodol i blant a theuluoedd sydd ar incwm isel a theuluoedd sy'n agored i niwed oherwydd rydym yn gwybod mai nhw all elwa fwyaf ar fanteision darllen.


Mae'r gefnogaeth a roddwn, sydd wedi'i chynllunio i newid ymddygiad darllen, yn seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys ymchwil gyda rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr.

BookTrust
Getting children reading

**Cysylltu â ni**
queries@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk
Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @BookTrust

©2025 BookTrust. Rhif elusen: 313343

## Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar BookTrust



## Ôl-nodiadau

1 Canolfan Plentyndod Cynnar y Sefydliad Brenhinol (dim dyddiad) *Early childhood and the developing brain*. Ar gael yn: **https://centreforearlychildhood.org/news-insights/case-studies/early-childhood-and-the-developing-brain/**

2 Mae'r term teuluoedd o aelwydydd incwm isel yn cyfeirio at y rhai sydd mewn tlodi cymharol fel y'i diffinnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

3 DS: Ni chymerodd un teulu ran yn ail gam yr ymchwil